

ffordd, hyd yn oed os na fuom mewn Ysgol Sul ers blynyddoedd. Dyma rai o'r ffyrdd y medrwn wneud hynny.

- ◇ Gweddio dros yr Ysgol Sul a'i gwaith. Gweddio dros yr athrawon, iddynt gael nerth a mwynhad wrth ddysgu'r plant. Gweddio dros y plant, iddyn nhw hefyd fwynhau'r Ysgol Sul a chael pob help i weld mor fawr yw Duw ac mor bwysig yw credu yn Iesu Grist a'i ddilyn.
- ◇ Gwahodd teuluoedd i ddod â'u plant i'ch Ysgol Sul. Mae'r Ysgolion Sul yn ceisio gwneud hynny, ond yn aml iawn trwy wahoddiad personol gan ffrindiau a theulu a chymdogion y bydd pobl yn ymateb ac yn dod atom i'r Ysgol Sul. Felly, os gwyddoch am deuluoedd nad ydyn nhw'n dod i'r Ysgol Sul, dywedwch wrthynt fod croeso iddynt yno.
- ◇ Ac yna, cefnogi'r gwaith. Un ffordd syml iawn o wneud hynny yw holi am waith eich Ysgol Sul ac annog yr athrawon a diolch iddynt am eu gwaith caled.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Hydref 8: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan.

Y mis nesaf - Deiniolen

Hydref 1

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Hydref 8

5.00 p.m. - Y Parchg Eifion W Williams

Hydref 15

5.00 p.m. - Y Gweinidog

CAPEL COCH A NANT PADARN
Nos Fawrth, Hydref 3: Y Gymdeithas Undebol am 7.00 o'r gloch yng nghwmni Mr Ken Jones

Dydd Sul, Hydref 8: Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd oedfa'r bore yn Oedfa Gymun. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

CARMEL

Dydd Llun, Hydref 2: Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Hydref 6: Dwylo Prysyr am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 8: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch a chynhelir Oedfa Ddiolchgarwch am 5.00 o'r gloch.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Hydref 8: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

REHOBOTH

Dydd Sul, Hydref 8: Ni fydd oedfa.

CYNLLUN EFE

Nos Lun, Hydref 23: Am 7.00 o'r gloch yn Capel Coch bydd Cyfarfod Comisiynu Catrin Hampton yn Weithiwr newydd Cynllun Efe.

Y mis nesaf - Llanberis

Hydref 1

10.00 a.m. - Mr Glyn Owen
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Parti Bytholwyrdd

Hydref 8

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Hydref 15

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Euros Wyn Jones



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 742: 01 Hydref, 2017

Dros Gatalunya

Ar ddydd cyntaf mis Hydref gweddiwn heddiw dros Gatalunya wrth i'w phobl fwrw pleidlais yn y Refferendwm i weld a yw ei phobl am ei gweld yn wladwriaeth annibynnol.

Mae gwladwriaeth a Llywodraeth Sbaen wedi gwneud popeth o fewn eu gallu (a mwy) i rwystro Llywodraeth Catalunya rhag cynnal y Refferendwm. Wedi gwneud pob ymdrech i fynnu bod y bleidlais yn anghyfansoddiadol ac anghyfreithlon, mae Llywodraeth Sbaen wedi gwneud popeth posibl i rwystro'r bleidlais trwy anfon milwyr i Gatalunya, bygwth ei harweinwyr gwleidyddol, difa papurau pleidleisio, cau gorsafoddd pleidleisio, ynghyd â llu o bethau eraill.

Gweddiwn heddiw dros Gatalunya. Mae hanes diweddar y wlad yn dangos yn glir fod yna ddymuniad i gynnal y bleidlais hon ynghylch annibyniaeth. Gwelwyd miloedd ar filoedd o bobl yn gorymdeithio o blaid y Refferendwm ac yn erbyn ymdrechion Sbaen i'w rhwystro. Ymgyrchu a phrotestio heddychlon a di-drais fu'r cyfan. Ac er gwaethaf pob ystryw yn eu herbyn, parhau i alw am weithredu di-drais y mae arweinwyr Catalunya. Gweddiwn na fydd mileindra Llywodraeth Sbaen, ei amharodrwydd i ystyried unrhyw newid cyfansoddiadol, ei hymdrechion i rwystro pobl rhag pleidleisio, a'i phenderfyniad i gosbi ac i ddial ar wleidyddion a swyddogion a drefnodd y Refferendwm yn creu tyndra a allai droi'n chwerw.

Nid Catalunya fyddai'r lle cyntaf o bell ffordd i beth felly ddigwydd yno am fod y llywodraeth yn gwrthod gwrandao ac yn gweithredu yn anghyfiawn ac yn ormesol. Gweddiwn na ddigwydd dim o'r fath ac y caiff y bobl ryddid i fwrw pleidlais heddiw. A beth bynnag y canlyniad, gweddiwn y caiff ei barchu gan bawb, yng Nghatalunya ei hun ac yn Sbaen. Yr ofn sydd gennyf yw y bydd hynny'n anodd iawn. Os mai pleidlais o blaid annibyniaeth a geir, bydd Llywodraeth Sbaen yn gwneud popeth posibl er sicrhau na wireddir dyheadau'r Catalunwyr. Os mai fel arall y bydd, mae'n anodd iawn dychmygu'r Catalunwyr yn bodloni i dderbyn y drefn sydd ohoni, wedi i honno ddangos ei dannedd gelyniaethus a gormesol.

Gweddiwn dros Gatalunya a'i phobl; iddynt gael cyfiawnder; iddynt gael heddwch; iddynt gael rhyddid. Cam cyntaf y rhyddid hwnnw yw cael yr hawl i ddweud eu hunain beth fydd dyfodol eu gwlad. Trwy atal yr hawl hwnnw iddynt, mae gwladwriaeth Sbaen nid yn unig yn gweithredu yn anghyfiawn ond yn gwneud rhywbeth a all hyd yn oed beryglu heddwch rhwng un rhan o'r wladwriaeth honno a'r llall.

Gweddiwn dros Gatalunya. Gweddiwn hefyd dros lywodraeth Sbaen a'i harweinwyr, iddynt weld fod rhaid parchu dyheadau'r bobl, ac iddynt fodloni i geisio ffyrdd o drafod ac o addasu er mwyn cael ateb a fydd er lles pawb.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'Diolchwn i ti, O Dduw,
diolchwn i ti; y mae dy enw
yn agos wrth adrodd am dy
ryfeddodau. Manteisiat ar yr amser
penodedig, ac yna barnaf yn gywir. Pan
fo'r ddaear yn gwegian, a'i holl
drigolion, myfi sy'n cynnal ei cholofnau
(Salm 75:1-3).

BEIBL BYW

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00
o'r gloch gan Mr Glyn Owen, Llanwnda.
Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch ac
aelodau Parti Bytholwyrdd yn arwain yr
oedfa am 5.00 o'r gloch.

Gwasanaethir yn yr oedfa yn Neiniolen
am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir yn Llanllechid am 5.00 o'r
gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol
Sul am 10.30 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r
gloch gan y Parchg Trefor Lewis. Bydd
yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Nant Peris am 2.00 o'r
gloch gan y Gweinidog.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb
fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n
methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

Bedydd

Cynhaliwyd Oedfa Fedydd yng nghapel
Bethlehem, Talybont bnawn Sul diwethaf
pan fedyddiwyd Enfys, merch fach
Hafwen a Gethin Williams, Coed Madog,
19 Ffordd Bangor, Bethesda gan y
Gweinidog. Dymunwn fendith a nerth
Duw iddynt fel rhieni fel y gallant roi i
Enfys y fagwrfa Gristnogol ffyddlon.

Angladd

Cynhaliwyd angladd Mr Nefydd Davies,
6 Tan y Gaer, Carneddi, Bethesda yng
Nghapel Carmel a Mynwent Coetmor
ddydd Gwener, Medi 29 dan arweiniad y
Gweinidog. Bu farw Mr Davies yn 82
mlwydd oed ddydd Sul, Medi 24.
Cydymdeimlwn â'i briod, Mrs Delia
Davies a'u plant Sandra, Ken, Sheryl,
Sharon a Rebecca a'r teulu cyfan yn eu
colled a'u profedigaeth. Diolch i Mrs
Helen Williams am ei gwasanaeth wrth
yr organ.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Dafydd a Sara Jones,
Tŷ Hen, Penisarwaun yn eu profedigaeth
o golli tad Dafydd, Mr William David
Jones, Bynsiencyn ar Fedi 21. Roedd ei
angladd ddydd Gwener diwethaf yn
Eglwys Llanidan, Brynsiencyn

Cymdeithas Undebol

Cynhelir Cymdeithas Undebol Llanberis
yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos
Fawrth yr wythnos hon (Hydref 3). Ceir
sgwrs gan Mr Ken Jones, Llanberis am y
Parchg Bryn Williams, Patagonia, a fu'n
weinidog wrth gwrs yn Capel Coch.

Cynllun Efe

Cynhelir Gwasanaeth Comisiynu Catrin
Hampton yn Weithiwr Plant, Ieuentid a
Theuluoedd Cynllun Efe yn Capel Coch
am 7.00 o'r gloch, nos Lun, Hydref 23.
Bydd yr oedfa yn gyfle i ni ddod at ein
gilydd i gyflwyno Catrin a'r gwaith i ofal
Duw. Bydd yno gynrychiolwyr o eglwys
Caersalem, Caernarfon a Scripture Union
Cymru sydd erbyn hyn yn cydweithio â
Chynllun Efe i gynnal y swydd hon.
Daw rhagor o fanylion yn nes at yr amser
ond nodwch y dyddiad ar hyn o bryd.

CIC

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf tymor
newydd CIC yn Capel Coch nos Wener
diwethaf. Roedd yn braf gweld y criw
ifanc nôl efo' i gilydd.

Hwn oedd y cyfle cyntaf i weithiwr
newydd Cynllun Efe, Catrin Hampton
gyfarfod â nhw. Ond doedd hi ddim yn
ddieithr i'r rhan fwyaf ohonynt chwaith
gan ei bod wedi eu cyfarfod yng Ngholeg
y Bala dros y blynyddoedd ar gyrsiau
plant a ieuentid.

Roedd yn braf iawn hefyd gael cwmni
Sion Morris o Goleg y Bala i arwain y
noson. Gan fod dau neu dri o weithwyr
ifanc y Coleg yn sâl, roedd Sion wedi
gorfod dod ar ei ben ei hun; ond cawsom
noson arbennig iawn, llawn hwyl yn ei
gwmni.

Trwy sôn am helyntion pobl yn tynnu
hunlun efo camera'r ffôn, fe gyflwynodd
neges syml am Dduw yn ei wneud ei hun
yn amlwg i ni yn ei Fab Iesu Grist.

Cyfarfod Chwarter

Diolch yn fawr i aelodau eglwys Emaus,
Bangor am y croeso cynnes a roddwyd i
Gyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd
Arfon nos Iau diwethaf.

Ar ôl trafod y materion yr oedd angen
rhoi sylw iddyn nhw yn rhan gyntaf y
cyfarfod cawsom gyfle i wrando ar y
Parchg Ddr Rhodri Glyn yn pregethu.
Mae gan Rhodri ddawn arbennig i agor
Gair Duw ac i gyflwyno'r Efyngyl; ac fe
brofwyd hynny unwaith eto nos Iau.
Seiliodd ei neges ar eiriau ym mhennod
gyntaf Ail Lythyr Paul at Timotheus
(adnod 12). Pwysleisiodd mai perthynas
â Iesu Grist, ac nid unrhyw ddysgeidiaeth
neu syniad, yw cychwyn a chanolbwynt
y bywyd Cristnogol; bod y berthynas hon
i bara ac i gael ei meithrin ar hyd ein
bywyd, trwy gredu a pharhau i gredu; a
bod i ffydd yn Iesu Grist ei chanlyniadau
a'i dylanwad ar bob rhan o'n bywydau.

Diolch iddo am ddod atom; a dymunwn
bob bendith iddo yn ei weinidogaeth yng
ngofalaeth Eglwys Bro Aled.

Cwrs Ieuentid

Blynyddoedd Ysgol 7-11
Yng Ngholeg y Bala
Nos Wener - Dydd Sul
Tachwedd 3-5, 2017

Holwch y Gweinidog am fanylion am y
Cwrs Ieuentid nesaf hwn a gynhelir yng
Ngholeg y Bala os ydych am i rywun
gael cyfle i fynd yno.

Ysgolion Sul

Mae'r Ysgolion Sul wedi ail ddechrau yn
ar fore Sul yn Llanberis, Llanllechid a
Thalybont wedi gwyliau'r haf. (Talybont
am 10.00 o'r gloch; Llanllechid am
10.30; a Llanberis am 11.15.)

Ar ddechrau tymor newydd, gall pawb
ohonom gefnogi'r Ysgol Sul mewn sawl